# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd J Arwel Roberts (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones ac Alwyn Rowlands |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Pennaeth Gwasanaeth Plant<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyllid)/Swyddog Adran 151Dros Dro<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro<br>Rheolwr Polisi a Strategaeth (CWO) (Eitem 5)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro (BHO) (Eitemau 7 & 8)<br>Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau (GJ) (Eitem 6)<br>Cyfrifydd Grwp (BD) (Eitem 7)<br>Cyfarwyddwr Prosiect (Prif Brosiectau) Priffyrdd (AR)<br>Swyddog Prosiect Cyllid (Gwasanaethau Cymdeithasol) (SLT) (Eitem 9)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr  Ann Griffith (Eitem 9), John Griffith (Eitemau 7 & 8), Llinos M Huws (Eitem 12), R Llewelyn Jones (Eitemau 9, 12 & 13), R G Parry, OBE (Eitem 8), R Meirion Jones (Eitem 11) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd J. Arwel Roberts ddiddordeb personol yn Eitem 12 ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth na’r pleidleisio.

Datganodd y Cynghorydd R. Ll. Jones ddiddordeb personol yn Eitem 12. Caniatawyd iddo ofyn cwestiynau ynglŷn â’r eitem.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cymeradwyo ymweliad i Japan gan 3 chynrychiolydd o’r Cyngor Sir fel rhan o’r Rhaglen Ynys Ynni.

## 3 COFNODION

Cyflwynwyd i'w cadarnhau – cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Mai 2014.

**PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Mai 2014 fel rhai cywir.**

## 4 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd - Adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y diweddariad o Flaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng Gorffennaf 2014 a Chwefror 2015.

Nododd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd bod dwy eitem ychwanegol wedi eu cynnwys yn y Flaenraglen Waith :-

Eitem 11 – Opsiynau Llety Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn – Cybi
Eitem 12 – Opsiynau Llety Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn – Amlwch a Llangefni

Nodwyd y bydd y ddwy eitem yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol yn y lle cyntaf.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r Flaenraglen Waith newydd am y cyfnod Mehefin, 2014 – Ionawr, 2015.**

## 5 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

Cyflwynwyd – Adroddiad Pennaeth Dros Dro i Gwasanaethau Democrataidd yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i'r adroddiad monitro'r Iaith Gymraeg blynyddol ac i awdurdodi ei gyflwyno i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg erbyn 30 Mehefin 2014.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer 2013/14 a chymeradwyo ei gyflwyno i'r Comisiynydd Iaith Gymraeg.**

## 6 POLISI AR GYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR I BENSIYNWYR 2014/15

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adran 151 Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Deilydd Portffolio (Cyllid) y bydd cynllun y Cyngor Sir i helpu i ostwng Treth Gyngor pensiynwyr yn un am y cyfnod 2014/15 yn unig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cynllun y Cyngor Sir am 2014/15.**

**7 CYLLIDEB GYFALAF 2013-14 – CANLYNIADAU DROS DRO**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Adnoddau (Cyllid) / Swyddog Adran 151 Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**8 CYLLIDEB REFENIW 2013-14 – CANLYNIADAU DROS DRO**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Adnoddau (Cyllid) / Swyddog Adran 151 Dros Dro mewn perthynas â'r gwariant yn erbyn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**9 Y DDARPARIAETH O WASANAETHAU CYMUNEDOL / GOFAL CARTREF**

Cyflwynwyd - adroddiad y Cyfarwyddwr Cymuned mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Deilydd Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) y bydd yn rhaid newid y modd y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu er mwyn sicrhau ystod well ac ehangach o wasanaethau i fwy o bobl.  Nododd ei fod yn dymuno iddo gael ei gofnodi y bydd yn monitro'r ddarpariaeth yn ofalus ac y bydd yn gofyn i'r dangosydd perfformiad perthnasol gael ei fonitro ar y cerdyn sgorio corfforaethol.

Dywedodd y Cynghorydd Ann Griffith fod ganddi bryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth o Wasanaeth Cymunedol/Gofal Cartref oherwydd ei bod yn dymuno gweld y ddarpariaeth orau i bobl Ynys Môn.  Roedd yn credu y  dylai'r Cyngor llawn gael y cyfle i drafod y ddarpariaeth bwysig hon.  Adleisiodd y Cynghorydd R. Ll. Jones y pryderon yng nghyswllt y ddarpariaeth hon.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Cymuned drwy ddweud bod dadansoddiad manwl o'r ddarpariaeth Gwasanaeth Cymunedol/Gofal Cartref wedi ei wneud er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy a'i fod yn darparu cefnogaeth i unigolion i wneud dewisiadau am eu gofynion gofal eu hunain yn y dyfodol.  Mae'r AGGCC yn rheoleiddio pob agwedd o ofal cymdeithasol trwy ddefnyddio rheoliadau a safonau cenedlaethol sylfaenol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo'r cynnig bod y ddarpariaeth o wasanaethau gofal cartref yn cael eu rhannu ar sail 70% i'w darparu'n allanol a 30% i'w darparu'n fewnol.**

- **Y bydd y dangosydd perfformiad perthnasol yn cael ei fonitro ar y cerdyn sgorio corfforaethol.**

**10 OPSIYNAU MEWN PERTHYNAS Â SICRHAU GWELLIANNAU I'R A5025 I HWYLUSO CYNIGION DATBLYGU HORIZON NUCLEAR POWER**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol) mewn perthynas â thrafodaethau anffurfiol gyda Horizon Nuclear Power dros y 12 mis diwethaf ar nifer o faterion yn cynnwys eu bwriadau i wneud/ariannu gwaith adeiladu a gwelliannau i'r A5025.

**PENDERFYNWYD**

- **I nodi'r trafodaethau hyd yn hyn gyda Horizon Nuclear Power (HNP) mewn perthynas â'r gwaith gwella ac adeiladu posibl y bydd angen ei wneud i'r A5025 i hwyluso'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa;**

- **Awdurdodi Swyddogion i fwrw ymlaen â thrafodaethau gyda HNP i sefydlu'r dull mwyaf priodol i sicrhau cyflawni'r gwaith y mae angen ei wneud ar yr A5025 yn cynnwys gwaith ymchwilio mewn partneriaeth â HNP a thrafod a llunio fframwaith ar gyfer symud ymlaen gyda chytundeb.**

- **Nodi y bydd unrhyw drefniadau cydweithio/partneriaeth a sefydlir dan yr uchod yn cael eu cyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.**

**11 GOSTWNG OED MYNEDIAD I YSGOL LLANFAIRPWLL**

Cyflwynwyd - adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn mofyn caniatâd y Pwyllgor Gwaith i ddechrau'r broses ymgynghori ar y bwriad i ostwng yr oed mynediad yn Ysgol Llanfairpwllgwyngyll.

**PENDERFYNWYD rhoi'r awdurdod i swyddogion ymgynghori ar y bwriad i ostwng oed mynediad i Ysgol Llanfairpwll.**

**12 CODI PRIS PRYDAU YSGOLION**

Cyflwynwyd - adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yng nghyswllt y codiad angenrheidiol ym mhris prydau ysgolion o fis Medi 2014.

Mynegodd y Cynghorydd Llinos M. Huws ei phryderon y bydd rhai teuluoedd yn methu fforddio'r cynnydd. Mae rhai teuluoedd nad ydynt yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim eisoes yn dibynnu ar fanciau bwyd. Ategodd y Cynghorydd R. Ll. Jones y pryderon mew perthynas â'r codiad ym mhris prydau ysgol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes bod cost prydau ysgol ym Môn yn cymharu'n ffafriol gyda siroedd eraill. Nid oedd y Cyngor Sir wedi codi pris prydau ysgol ers Medi 2012.

**PENDERFYNWYD y bydd pris pob pryd ysgol yn codi gan 10c o fis Medi 2014.**

## 13 CYNNIG I DDELIO Â DIFFYG MEWN CYLLIDEB YSGOL

Cyflwynwyd - adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes i geisio cael cytundeb mewn egwyddor i ddefnyddio arian wrth gefn i gefnogi cynllun adfer cyllideb yn Ysgol Uwchradd Caergybi. Roedd y cynnig yn golygu gwneud defnydd cynllunedig o arian wrth gefn Dysgu Gydol Oes i gefnogi cynllun adfer cyllideb yr ysgol i'w weithredu dros gyfnod o 3 blynedd.

**PENDERFYNWYD cytuno i'r bwriad i ddefnyddio arian wrth gefn yr Adran Dysgu Gydol Oes i gefnogi cynllun adfer cyllideb ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 o'r gloch

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**